Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Llanfair Llythynwg yn gymuned ddysgu hapus a ffyniannus. Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da fel dysgwyr, ac yn eu datblygiad cyffredinol o fewn ethos anogol yr ysgol. Maent yn falch o'u hysgol a'u cyflawniadau. Mae eu hymddygiad yn rhagorol ac maent yn dangos gofal a pharch eithriadol o dda at ei gilydd. Caiff disgyblion lefel dda o ddylanwad ar fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy greu a gweithredu rheolau'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau llythrennedd, Cymraeg, rhifedd a'u medrau digidol yn dda, ac maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ac yn frwdfrydig ar draws yr ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae athrawon yn gweithio'n dda fel tîm ac yn dangos ymrwymiad cryf i flaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft trwy ddatblygu eu medrau Cymraeg i'w galluogi i weithio'n fwy effeithiol gyda disgyblion. Maent yn sefydlu ac yn cynnal perthnasoedd gofalgar, ymddiriedus a pharchus gyda disgyblion. Maent yn deall ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda trwy wersi difyr, cwricwlwm eang a chytbwys a chymorth pwrpasol, pan fydd angen. At ei gilydd, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac maent yn cynllunio dilyniannau o wersi'n dda i gynnwys lefelau priodol o gymorth a her. Yn aml, mae athrawon yn defnyddio holi ac adborth yn llwyddiannus i symud dysgu ymlaen, yn enwedig yn y dosbarth ar gyfer disgyblion hŷn. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion iau yn yr ysgol yn datblygu llawer o'u medrau yn briodol. Fodd bynnag, mae oedolion yn tueddu i strwythuro ac arwain y rhan fwyaf o weithgareddau. Nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain neu ddysgu trwy chwarae pan fyddant dan do neu'r tu allan. Mae arweinwyr yr ysgol yn ymwybodol o hyn.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol. Mae hi'n deall yn dda iawn anghenion y disgyblion, y staff a'r gymuned sy'n cael ei gwasanaethu gan yr ysgol. Mae hi wedi datblygu diwylliant pwerus o gydweithio o fewn yr ysgol a thu hwnt, sy'n sicrhau bod yr ysgol yn diwallu'r anghenion hyn. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gweithio mewn cytundeb cydweithio gydag ysgol gynradd leol arall. Mae'r pennaeth yn arwain y ddwy ysgol. Mae hyn, wedi'i gyfuno â gwaith effeithiol gyda'r clwstwr lleol o ysgolion a'r partneriaethau hynod fuddiol â rhieni ac amrywiaeth o sefydliadau allanol, yn cynnig llawer o fanteision. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo'r ysgol i ymestyn ystod y profiadau a ddarperir ar gyfer disgyblion ac yn galluogi staff i weithio'n gynhyrchiol gyda chydweithwyr proffesiynol.

Mae'r pennaeth, mewn partneriaeth â disgyblion, staff, llywodraethwyr a chymuned yr ysgol, yn cynnal ffocws clir ar wella'r ysgol yn barhaus. At ei gilydd, mae'n sicrhau bod yr ysgol yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar yr adeg gywir. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gwaith yr ysgol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion iau yn yr ysgol.

# Argymhellion

**A1** **Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion iau**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Yr Eglwys yng Nghymru Llanfair Llythynwg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 40 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 36 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 13.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/12/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  08/02/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.